# Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod brys a gynhaliwyd nos Fercher 2/3/2016

*Minutes of the emergency meeting held on Wednesday evening 2/3/2016*

**Presennol / Present:** Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Elfed Jones, David Livingstone, Dei Owens, Julia Dobson, Tony Hughes, Brian Potter

**Cynghorwyr Sirol / County Councillors:** Cyng/Cllr Wil Hughes, Cyng/Cllr Richard Jones

**Yn Bresennol / In Attendance:** Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk)

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Marilyn Hughes, Carys Davies

**1** **Croeso / *Welcome***

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol ar fyr rybydd. Croesawyd Brian Potter i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Cyngor. Esboniwyd pwrpas galw'r cyfarfod.

*Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance at short notice. Brian Potter was welcomed to his first meeting as a member of the Council. The purpose of the meeting was explained.*

**2** **Datgan Diddordeb / *Declaration of Interest***

Cyng/Cllr Richard Jones – ni fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth / *he will not be taking part in any discussion.*

Cyng/Cllr Wil Hughes – nodwyd ei fod wedi datgan diddordeb yn y Cyngor Sir ac felly mae ganddo ryddid i gymryd rhan y y drafodaeth gyda'r Cyngor Cymuned / *it was noted that he has declared an interest at the County Council and thus has the freedom to take part in any discussion with the Community Council.*

**3** **Cyfraniad Budd Cymunedol / *Community Benefit Contribution***

Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn a gylhaliwyd nos Lun Chwefror 15, cafwyd cyflwyniad gan Elfed Williams ar ran y cwmni sy'n edrych ar ddatblygu'r fferm arae haul. Pan ofynnwyd am fudd cymunedol, ar nifer o achlysuron drwy'r cyflwyniad, cafwyd wybod na fydd budd cymunedol ariannol (dim ond y £200k y flwyddyn mewn trethi fydd i'w dalu i'r Cyngor Sir).

Bore Mawrth, Chwefror 16, fe gysylltwyg a Derek Owen ymysg aelodau eraill, ac fe wnaed cynnig o £50,000 i'r Cyngor Cymuned (£5k y flwyddyn dros 10 mlynedd) am beidio a gwrthwynebu'r cais. Cafwyd ail alwad ffon yn datgan y byddai corff arall yn cael budd yr arian os na fyddai penderfynniad yn cael ei wneud yn fuan. Nodwyd nad oedd cadarnhad ysgrifennedig o'r cynnig hyd yma.

Er iddynt addo yn y cyfarfod, mae'r datblygwyr wedi gwrthod anfon copi o'r cyflwyniad a wnaed er gwybodaeth.

Nodwyd bod y cais cynllunio llawn wedi ei dderbyn ar gryno ddisg hediw (2/3/2016). Cytuno i'r clerc geisio ag ebostio'r dogfennau i'r aelodau er gwybodaeth, a gofyn am gopi caled gan yr adran gynllunio. Mae angen ymateb erbyn Mawrth 22.

Trafodwyd gwahanol agweddau o'r cyflwyniad a'r prosiect oedd angen eu esbonio ac oedd yn codi pryderon i'r gymuned gyfan. Cytuno bod angen i'r aelodau edrych i'r dyfodol ac oblygiadau unrhyw benderfyniadau a wnaed – mae cyfrifoldeb i ddiogelu'r gymuned ar gyfer cenhedlaethau'r dyfodol. Nodwyd pryderon sut y byddai'r fferm arae haul yn cydsysio a'r tyrbinau gwynt gan bod y ddau datblygiad ar yr un tir yn Rhyd y Groes.

Wrth anghofio budd cymunedol, mae pob amser yr angen i asesu ac ystyried y cais cynllunio yn annibynnol. Teimlai'r aelodau bod y datblygiad yn rhy fawr, ar dir amaethyddol da (i'r ardal) ac y byddai yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth.

*At the last full council meeting held on Monday February 15th, a presentation was given by Elfed Williams on behalf of the company seeking to develop the solar farm. When asked about community benefit on a number of occasions throughout the presentation, members were told that there was no monetary community benefit (only the £200k per annum business rates paid to the County Council).*

*The morning of the 16th February, Derek Owen amongst other members of the Council were contacted by telephone and an offer of £50,000 was made to the Community Council (paid £5k per annum over 10 years) should the Council not oppose the planning application. A second phone call informed the Council that someone else may benefit from the offer if no imminent decision was made. It was noted that there was no written confirmation of the offer made to date.*

*The developers have declined to forward a copy of the presentation made at the Council meeting for information as promised.*

*It was noted that the full planning application had been received today (2/3/2016) on disk. Agreed that the Clerk attempt to email the documents to all members for information and request a hard copy from the planning department. A response is required by March 22nd.*

*Members discussed various aspects of the presentation and the project that needed clarification and were of concern to the community at large. It was agreed that the members need to look into the future and at the implications of decisions made – there is a duty to safeguard the community for future generations. Concerns were raised as to how the solar farm project will interact with the turbines as both developments are essentially on the same land at Rhyd y Groes.*

*Community benefit aside, there is always the need to assess and consider the planning application on its own merits. The members present felt that the development was too big, on prime farm land (for the region) and would have an adverse effect on tourism.*

**4 Camau Nesaf / *Next Steps***

Cytuno i'r clerc gysylltu a'r Swyddog Monitro er mwyn cofnodi'r digwyddiad(au) a'u gwneud yn ymwybodol o'r sefyllfa er mwyn diogelu'r Cyngor a'r aelodau. Cytuno i'r clerc gymryd y camau angenrheidiol fel bo'r Swyddog Monitro'n argymell.

Cytuno trefnu cyfarfod agored i drafod y cais cynllunio a chael barn y gymuned yn gyffredinol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Bydd y cyfarfod i'w gynnal nos Iau, Mawrth 17 yn y Neuadd Bentref, Cemaes am 7.30 or gloch. Bydd cynghorau cymuned gogledd Mon, Albert Owen ac Rhun ap Iorweth yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r cyfarfod.

*It was agreed that the Clerk contact the Monitoring Officer to log the incident(s) and make them aware of the situation in order to safeguard the Council and its members. Agreed that the Clerk take any necessary steps as recommended by the Monitoring Officer.*

*It was agreed to arrange a public meeting to discuss the planning application to seek the opinion of the community in general before making any decisions. The meeting will take place on Thursday March 17th at Cemaes Village Hall at 7.30pm. All north Anglesey Community Councils to be made aware of the meeting along with Albert Owen and Rhun ap Iorwerth.*

**5 Unrhyw Fater Arall / *Any Other Business***

**5.1 Maes Parcio / *Car Park***

Nodwyd mewn datganiad i'r wasg ddiweddar bod y Cyngor Sir yn bwriadu codi tal am ddefnyddio maes parcio Cae Pwmp / Lon Glascoed. Trafodwyd yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar y busnesau lleol a hefyd y posibilrwydd o gymryd les ar yr adnodd. Awgrymwyd y byddai'r holl fusnesau yn cyfrannu tuag at y gost blynyddol (tua £500 pob un pob blwyddyn). Cytuno trafod ymhellach wedi i'r Cyngor Sir gysylltu gan eu bod eisioes yn ymwybodol bod y Cyngor Cymuned a Diddordeb.

*It was noted in a recent press release that the County Council are looking to charge for parking at Cae Pwmp / Lon Glascoed Car Park. Members discussed the effect this would have on the local businesses and also the possibility of taking on a lease for the facility. It was suggested that all the businesses contributed towards the cost of the lease (approx. £500 each per annum). It was agreed to discuss further when the County Council make contact as they are already aware that the Community Council were interested*.

**5.2 Llyfrgell / *Library***

Mae cyfarfod wedi ei drefnu nos Fawrth, Mawrth 15 yn Llyfrgell Amlwch rhwng 6-8 o'r gloch i drafod dyfodol gwasanaeth llyfrgelloedd Mon. Mae ebost yn cadarnhau'r manylion wedi ei anfon i'r aelodau eisioes. Cytuno byddai angen datblygu cynllun busnes manwl cyn i'r Cyngor Cymuned ystyried cymryd cyfrifoldeb am yr adeilad. Cytuno trafod eto pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. Derek Owen, Elfed Jones a Julia Dobson i fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor ac adrodd yn ol i'y cyfarfod llawn nesaf.

*There is a meeting to take place at Amlwch Library on Tuesday March 15th between 6-8pm to discuss the future of the library service on Anglesey. An email confirming the details has been forwarded to all members. Agreed that a detailed business plan would need to be drawn up before the Community Council could consider taking over the building. Agreed to discuss in more detail when more information is available. Derek Owen, Elfed Jones and Julia Dobson to attend on the 15th and report back at the next full council meeting.*

Bu'r cyfarfod orffen am 20.20 / *The meeting closed at 20.20.*